WG number: 50350

# Dysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Llywodraeth Cymru

Mehefin 2024

ISBN 978-1-83625-391-4

# Dysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru: Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Hannah Rigley, Maya Richardson, Geof Andrews / Miller Research (UK) Ltd.

MILLER
Research Evaluation Consulting

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Rigley
hannah@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

**Tabl cynnwys**


1. Cefndir....3

Cyd-drafod cyn ymgynghori ....3

Yr Ymgynghoriad ....4

2. Crynodeb o'r ymatebion ....5

Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad ....5

Deall y canllawiau....7

Deall sut y dylai'r Cynnig Cymwysterau gefnogi Cynnig y Cwricwlwm ....8

Deall sut y dylid cynllunio'r cwricwlwm ....10

Graddau'r manylder....11

Effaith ar weithlu ysgolion....13

Effaith ar grwpiau penodol o ddysgwyr....14

Effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg ....15

Effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg ....16

Sylwadau ychwanegol....17

3. Atodiadau ....18

Atodiad A – Methodoleg ....18

Atodiad B – Cwestiynau'r Ymgynghoriad ....19

Atodiad C – Arolwg Dysgwyr ....21

Atodiad D - Rhestr o sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ....21

# 1. Cefndir

1.1 Ym mis Hydref 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar "Dysgu 14 i 16 o dan Gwricwlwm i Gymru". Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cefndir byr i'r maes polisi a'r ymgynghoriad cyn crynhoi methodoleg a chanfyddiadau'r ymgynghoriad.

1.2 Ers mis Medi 2023, mae pob ysgol yng Nghymru wedi bod yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 8. Bydd y broses gyflwyno'n parhau'n raddol tan 2026, pan fydd pob dysgwr mewn ysgolion yng Nghymru yn cael ei addysgu o dan y Cwricwlwm. Mae canllawiau fframwaith y Cwricwlwm yn cael eu diweddaru'n flynyddol bob mis Ionawr i adlewyrchu dysgu a datblygu’r arferion gorau o'r broses barhaus o gyflwyno’r Cwricwlwm ym mhob pob ysgol a grŵp blwyddyn.

1.3 Mae adran Dysgu 14 i 16 y Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu gofynion cyfreithiol cwricwla ysgolion ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed. Mae'n darparu gwybodaeth sydd â'r bwriad o gefnogi ysgolion i gynllunio a darparu cynnig cwricwlwm sy'n cyflawni blaenoriaethau a gofynion statudol Llywodraeth Cymru.

### Cyd-drafod cyn ymgynghori

1.4 Datblygwyd canllawiau drafft ar Ddysgu 14 i 16 gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2024 mewn proses a oedd yn cynnwys trafod yn helaeth â nifer o randdeiliaid allweddol. Sefydlwyd Bwrdd Dysgu 14 i 16, gyda’i aelodaeth yn cynnwys Cymwysterau Cymru, Estyn, CBAC, Gyrfa Cymru a Chonsortia Rhanbarthol, a thasg gyntaf y Bwrdd oedd ystyried drafft cynnar o'r canllawiau, er mwyn helpu i lunio'r ddogfen ymgynghori derfynol. Cafwyd trafodaethau hefyd gydag amrywiaeth o ymarferwyr addysg, undebau addysg, cyflogwyr, a chyda'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

1.5 Roedd yr adborth gan ymarferwyr mewn ysgolion yn cynnwys eu bod yn gyffredinol yn cydnabod elfennau cadarnhaol y cwricwlwm newydd a'u bod yn gefnogol o’r cyfeiriad roedd yn anelu ato. Mynegwyd pryderon ynghylch atebolrwydd (ac amheuon o'r defnydd o fesurau perfformiad ysgolion), heriau wrth gynnwys dysgwyr, a'r angen am gymorth wedi'i deilwra gan awdurdodau lleol ar gyfer pob ysgol. Roedd rhanddeiliaid Addysg Bellach yn sôn am yr angen i werthfawrogi pob llwybr dysgu, rheoli disgwyliadau rhieni, yn ogystal â phwysigrwydd rhannu data rhwng ysgolion a cholegau. Pwysleisiodd cyflogwyr yr angen i wella datblygiad sgiliau meddalach ymhlith dysgwyr gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yng Nghymru ac yn hwyluso integreiddio pellach rhwng busnesau a lleoliadau addysg. Roedd undebau athrawon yn arbennig o bryderus ynghylch sut y byddai'r gofynion yn cael eu hariannu ac yn awgrymu y byddai cynnwys enghreifftiau o gynllunio'r cwricwlwm ac o sut y gallai cynnig profiadau dysgu rhyngddisgyblaethol gefnogi ysgolion yn well. Roeddent ag agwedd gadarnhaol am y polisi mewn perthynas ag addysgu a dysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11 fel rhan o'r continwwm 3 i 16.

1.6 O ganlyniad i'r adborth cyn ymgynghori, gwnaed newidiadau i'r canllawiau drafft a gyhoeddwyd. Roedd y drafft diwygiedig yn llawer mwy cryno, ac yn cynnwys eglurder pellach ynghylch Hawl i Ddysgu ac esboniad o sut y bydd y canllawiau yn llywio datblygiad ecosystem wybodaeth newydd i ysgolion, ac esboniad pellach o'r Hawl i Ddysgu. Datblygwyd fersiwn rhieni a gofalwr o'r canllawiau hefyd i hwyluso cyd-drafod mwy ystyrlon â'r sector hwn.

### Yr Ymgynghoriad

1.7 Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar 28 Chwefror 2024. Bu'n rhedeg am 10 wythnos a chaeodd ar 8 Mai 2024.

1.8 Roedd y ddogfen yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau a gynlluniwyd i fesur a oedd y bwriadau polisi wedi'u hegluro'n dda, yn ogystal â'r effaith ar y gweithlu, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd y canllawiau i rieni a gofalwyr yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau wedi'u haddasu'n benodol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl ar gyfer adborth o safbwyntiau rhieni a gofalwyr.

1.9 Law yn llaw â'r ymgynghoriad swyddogol, cynhaliodd Miller Research sesiynau trafod ansoddol trwy grwpiau ffocws gydag ymarferwyr addysg, rhieni a gofalwyr, a dysgwyr. Mae mwy o fanylion am hyn i'w gweld yn y fethodoleg yn Atodiad A.

1.10 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn nodi crynodeb o'r canfyddiadau, gan gynnwys fesul math o ymateb:
  - Ymatebion i'r ymgynghoriad
  - Grwpiau Ffocws
  - Arolwg Dysgwyr
  - Gohebiaeth blwch post ychwanegol – e-byst a llythyrau
- Mae'r Atodiadau yn cynnwys gwybodaeth atodol a deunyddiau:
  - Y dull a ddefnyddir ar gyfer yr ymgynghoriad
  - Cwestiynau Ymgynghori
  - Rhestr o sefydliadau a ymatebodd.

## 2. Crynodeb o'r ymatebion

**2.1 Mae'r polisi dysgu 14-16 wedi'i gydblethu'n dynn â'r polisi a'r ddeddfwriaeth bresennol ar y Cwricwlwm i Gymru ac â'r dull rheoleiddio presennol o ddiwygio cymwysterau, yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol. Gosodwyd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghyd-destun y diwygiadau ehangach hyn ac nid ydynt yn benodol i'r canllawiau 14-16. Rydym wedi nodi'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r agenda ddiwygio ehangach yn ogystal â'r elfennau hynny sy'n benodol i'r canllawiau dysgu 14-16. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi yn fanylach isod.**

### Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

2.2 Cafodd y 103 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u casglu ynghyd i ffurfio sail i'r adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys 86 o ymatebion ar-lein a 17 o ymatebion blwch post ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Derbyniwyd tri ymateb i'r ymgynghoriad a 5 ymateb i'r blwch post yn Gymraeg, gyda'r gweddill o'r 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 12 o ymatebion blwch post wedi eu cyflwyno yn Saesneg.

*Ymatebion y tu allan i'r cwmpas*

2.4 Roedd nifer o ymatebwyr â'u hymatebion yn byfleu barn am gyflwyno'r Cwricwlwm yn gyffredinol ac am ddiwygio cymwysterau yng Nghymru. Roedd y Cwricwlwm yn destun proses ymgynghori gynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, cyn ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd yn 2022. Er bod y canllawiau'n gysylltiedig â diwygio cymwysterau, mae'r cynigion hyn yn cael eu harwain gan Gymwysterau Cymru yng nghyd-destun polisi'r Cwricwlwm i Gymru ac roeddent yn destun proses ymgynghori ar wahân. Roedd yr ymatebion hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn. Nod y canllawiau hyn yw cefnogi ysgolion i gynllunio cynnig cwricwlwm i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n bodloni'r ystod o ddisgwyliadau a nodir yng ngofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru A blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Nid yw'r ymatebion y bernir eu bod y tu allan i'r cwmpas wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cryno hwn.

2.5 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oeddent yn ymateb fel ymarferydd addysg neu fel rhiant neu ofalwr. Mae Tabl 2.1 yn nodi dadansoddiad o bob grŵp o ymatebwyr. Mae'r tabl hwn hefyd yn cynnwys demograffeg ymatebwyr blwch post. Cyflwynwyd cyfres wahanol o gwestiynau i bob un o ymatebwyr yr arolwg ymgynghori. Mae'r ymatebion i


bob cyfres o gwestiynau wedi'u cyflwyno ar wahân ond wedi'u hintegreiddio ym mhob cwestiwn.

**Tabl 2.1 Demograffeg ymatebwyr**

| Ymateb | Cyfrif | Canran |
|---:|---|---|
| Ymarferwyr addysg | 57 | 56% |
| Rhiant neu ofalwr | 44 | 43% |
| Arall | 2 | 1% |
| Cyfanswm | 103 | 100% |

2.6 Cafodd arolwg dwyieithog ar wahân ar gyfer dysgwyr ei ddosbarthu ar ein rhan gan Blant yng Nghymru. Cafodd yr arolwg 341 o ymatebion ac fe'i cwblhawyd gan amrywiaeth o ddysgwyr o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13, fel y nodwyd yn Ffigur 2.1. Derbyniwyd yr holl ymatebion ac eithrio un yn Saesneg.

**Ffigur 2.1 Arolwg Dysgwyr Cwestiwn 1: Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi?**




2.7 Cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag ymarferwyr addysg, rhieni a gofalwyr a dysgwyr. Cynhaliwyd chwe grŵp ffocws a dau gyfweliad i gyd, tri gyda rhieni a gofalwyr, a dau grŵp ffocws a dau gyfweliad a gynhaliwyd gydag ymarferwyr addysg. Hwyluswyd sesiwn trafod gyda dysgwyr gan Cymwysterau Cymru.

*Cwestiynau demograffig*

2.8 Cynhwyswyd cwestiynau demograffig dewisol hefyd fel rhan o'r arolwg ymgynghori (n = 86). O'r ymatebwyr i'r cwestiynau hyn, nododd bron pob un eu bod yn byw yng Nghymru (94%), ac nid oedd gan fwyafrif yr ymatebwyr (74%) fuddiant busnes yng Nghymru.

**Tabl 2.2 Cwestiwn 10 y Prif Ymgynghoriad: Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

| Ymateb | Cyfrif | Canran |
|---:|---|---|
| Ydw | 81 | 94% |
| Nac ydw | 3 | 4% |
| Dim ymateb | 2 | 2% |
| Cyfanswm | 86 | 100% |


**Tabl 2.3 Cwestiwn 11 y Prif Ymgynghoriad: Oes gennych chi fuddiant busnes yng Nghymru?**

| Ymateb | Cyfrif | Canran |
|---:|---|---|
| Oes | 16 | 19% |
| Nac oes | 64 | 74% |
| Dim ymateb | 6 | 7% |
| Cyfanswm | 86 | 100% |


### Deall y canllawiau

2.9 O'r ymarferwyr a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad, roedd 43 y cant (20) naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf i Gwestiwn 1 bod y canllawiau dysgu 14 i 16 yn eu helpu i ddeall eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru, tra bod 32 y cant (15) o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymatebion gan rieni a gofalwyr, gyda'r mwyafrif (73 y cant; 27) yn nodi eu bod yn deall yr hyn y dylai ysgol fod yn ei gynnig i'w plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn teimlo (45 y cant; 152) bod yr esboniad a roddir yn helpu eu dealltwriaeth.


**Ffigur 2.2 Cwestiwn 1 y Prif Ymgynghoriad: I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall eich rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed o fewn Cwricwlwm i Gymru?**



**Ffigur 2.3 Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad i Rieni a Gofalwyr: Ydych chi'n deall beth ddylai ysgol fod yn ei gynnig i'ch plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11?**




**Ffigur 2.4 Arolwg Dysgwyr Cwestiwn 1: A yw'r esboniad uchod yn helpu chi i ddeall yr hyn y dylai ysgolion cynnig i ddisgyblion 14 i 16 oed wrth symud ymlaen?**




2.10 O'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a ymhelaethodd ar y safbwyntiau hyn, cododd rhai rhieni a gofalwyr bryderon am ddiffyg eglurder y canllawiau a ddarperir ynghylch y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd, gan bryderu ynghylch sut y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu yng nghanol toriadau parhaus i staffio ac addysg. Amlygodd rhieni a gofalwyr hefyd yr angen am gwricwlwm eang a chytbwys nad yw'n cyfaddawdu ar safonau academaidd a chymhariaeth ryngwladol.


2.11 Roedd ymatebwyr blwch post ychwanegol hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol bod canllawiau'n darparu gwybodaeth ac enghreifftiau ychwanegol ar y "profiadau dysgu ehangach". Roedd y safbwyntiau hyn yn debyg i gyfranogwyr grwpiau ffocws a gytunodd yn gyffredinol bod prif elfennau'r canllawiau yn ddealladwy o safbwynt ymarferydd yn gwybod eu gofynion statudol. Yn gyffredinol, cytunodd rhieni fod y canllawiau yn eu helpu i ddeall beth ddylai ysgolion fod yn ei gynnig i'w plentyn. Gofynnodd ymarferwyr ysgolion arbennig am eglurder pellach ar weithredu'r canllawiau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion arbennig.

### Deall sut y dylai'r Cynnig Cymwysterau gefnogi Cynnig y Cwricwlwm

2.12 Roedd ymatebion ymarferwyr i'r prif ymgynghoriad yn gymysg, gyda 38 y cant (18) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â Chwestiwn 2, bod y canllawiau dysgu 14 i 16 wedi eu helpu i ddeall sut y dylid defnyddio'r cynnig


cymwysterau i gefnogi cynnig cwricwlwm 14 i 16 i ddysgwyr o dan y Cwricwlwm, tra bod 34 y cant (16) o ymatebion yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

**Ffigur 2.5 Cwestiwn 2 y Prif Ymgynghoriad: I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylid defnyddio'r cynnig o gymwysterau i gefnogi cynnig cwricwlwm 14 i 16 i ddysgwyr o fewn Cwricwlwm i Gymru?**




2.13 Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn rhieni neu ofalwyr (62 y cant; 23) yn cytuno â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16, a’r rheswm a nodwyd fwyaf dros anghytuno oedd pryder am y pwyslais ar bynciau gorfodol fel y Gymraeg ac Astudiaethau Crefyddol, gyda rhai yn teimlo y gallent ddod "ar draul pynciau academaidd/galwedigaethol sy'n bwysig i astudio pellach / cyflogaeth dysgwyr." Awgrymai sawl ymatebydd nad oedd digon o bwyslais ar wyddoniaeth yn y cynigion. Codwyd pryderon hefyd gan ymatebwyr rhieni a gofalwyr am y gostyngiad mewn gwasanaethau gyrfa, a allai gyfyngu ar ddealltwriaeth myfyrwyr o'u dewisiadau ôl-16.

**Ffigur 2.6 Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad i Rieni a Gofalwyr: Ydych chi'n cytuno â Hawl i Ddysgu 14 i 16 Llywodraeth Cymru?**





2.14 Roedd galwadau hefyd am fwy o bwyslais ar baratoi ar gyfer llwybrau ôl-16 (sy'n arbennig o bwysig i'r rhai nad ydynt yn astudio Safon Uwch) a gwell darpariaethau o gymwysterau seiliedig ar sgiliau ar gyfer dysgwyr anacademaidd. Mynegodd ymatebwyr gohebiaeth blwch post ychwanegol hefyd yr angen am eglurder ychwanegol ar elfennau penodol o'r canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau neu fodelau enghreifftiol y gallant eu haddasu, diagram gweledol o'r casgliad cymhleth o gymwysterau ac eglurhad ar y cymwysterau newydd. Mynegodd yr ymatebwyr hyn bryder

hefyd y bydd y cynigion yn creu llwyth gwaith ychwanegol ac y gallent arwain at gyfyngu ar opsiynau i ddysgwyr.

2.15 Roedd lleiafrif o ymatebwyr i'r arolwg dysgwyr (39 y cant; 134) yn teimlo eu bod yn deall yr hyn a fyddai'n dod o dan bob un o bedair elfen yr Hawl i Ddysgu, ac roedd 37 y cant (125) o ymatebwyr eraill yn ansicr. Roedd dysgwyr grŵp ffocws yn teimlo'n hyderus eu bod yn deall y cynnig llawn o 14 i 16 (o ran cymwysterau a'r cwricwlwm) ond roeddent yn cydnabod y gallai hyn fod oherwydd iddynt ymwneud yn flaenorol â Chymwysterau Cymru.

**Ffigur 2.7 Arolwg Dysgwyr Cwestiwn 2: Ydych chi'n deall beth fyddai'n dod o dan bob un o bedair cydran hawl y dysgwr?**





2.16 Ymhlith rhieni a gofalwyr a oedd hefyd yn cytuno â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16, roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ymgorffori sgiliau meddalach yn y cwricwlwm, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu mewn lleoliadau addysgol traddodiadol. Er bod holl ymatebwyr y grwpiau ffocws hefyd yn fwy cadarnhaol ar y cyfan am lefel eu dealltwriaeth, teimlai staff ysgolion ei bod yn bwysig bod ymarferwyr yn cael mwy fyth o eglurder ar sut i ysgrifennu cwricwlwm gan ystyried diwygio cymwysterau a sut y byddai eu hysgol yn cymharu ag ysgolion eraill.

### Deall sut y dylid cynllunio'r cwricwlwm

2.17 Roedd mwyafrif o ymarferwyr a ymatebodd i Gwestiwn 3 y prif ymgynghoriad naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (57 y cant; 27) bod canllawiau dysgwyr 14 i 16 wedi eu helpu i ddeall sut y dylid cynllunio cynnig cwricwlwm 14 i 16.

**Ffigur 2.8 Cwestiwn 3 y Prif Ymgynghoriad: I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylai cynnig cwricwlwm 14 i 16 gael ei gynllunio?**





2.18 Mynegwyd safbwyntiau cymysg hefyd gan ymarferwyr o fewn grwpiau ffocws o ran eu dealltwriaeth o sut y dylid dylunio'r cwricwlwm. Cafodd y rhain eu grwpio o amgylch themâu'r newid i'r dull a'r gweithredu newydd, gan weld y canllawiau yn "rhy ddelfrydgar" a mynegi pryder penodol am ddiffyg manylder. Roedd ymatebwyr y blwch post ychwanegol hefyd yn gymysg yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag awgrymiadau bod angen mwy o fanylder ar gyfer gweithredu ymarferol.

2.19 Roedd y pethau cadarnhaol a gyflewyd yn cynnwys bod yr Hawl i Ddysgu yn dangos asesu'r hyn a ddysgwyd, addysgu mewn pedair cydran yn hytrach nag mewn disgyblaethau caeth, a bod angen cydbwyso addysgu a dysgu.

### Graddau'r manylder


2.20 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (60 y cant; 28) gyda Chwestiwn 4, bod y canllawiau dysgu 14 i 16 yn cynnwys digon o fanylder. Roedd rhai ymarferwyr grwpiau ffocws yn teimlo eu bod yn ddigon manwl, ond y byddai lefelau cyffredinol o ddealltwriaeth yn dibynnu ar wybodaeth gefndir unigolion.

**Ffigur 2.9 Cwestiwn 4 y Prif Ymgynghoriad: I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y canllawiau dysgu 14 i 16 yn cynnwys digon o fanylder?**




2.21 Yn ogystal, nid oedd y mwyafrif o rieni a gofalwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad (72 y cant; 26) yn teimlo bod yr hawl yn cynnwys popeth sy'n bwysig i'w plentyn yn 14 i 16 oed. Pwysleisiodd ymatebwyr rhieni a gofalwyr yr angen am ystod ehangach o bynciau, a rhannwyd pryderon am y pwyslais ar bynciau gorfodol fel Addysg Gymraeg a Chrefyddol gan eu bod o'r farn eu bod yn yn cyfyngu ar allu dysgwyr i ddilyn pynciau sy'n fwy cydnaws â'u dyheadau gyrfaol.

**Ffigur 2.10 Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad i Rieni a Gofalwyr: A yw'r hawl yn cynnwys popeth sy'n bwysig i'ch plentyn yn 14 i 16 oed?**





2.22 Roedd nifer o rieni a gofalwyr a ymatebodd yn mynegi pryder hefyd nad yw gwyddoniaeth yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol yn yr Hawl i Ddysgu, o ystyried ei bwysigrwydd o ran helpu dysgwyr i ddeall y byd a datblygu sgiliau hanfodol. Soniwyd am hyn hefyd mewn perthynas â chymhwysedd digidol.

2.23 Ymhlith y nifer fach o rieni a gofalwyr a ymatebodd a oedd yn teimlo bod yr hawl yn cynnwys popeth sy'n bwysig i'w plentyn, roedd canfyddiad y bydd y cynnig cwricwlwm newydd yn diwallu anghenion dysgwyr sydd â galluoedd academaidd ac arddulliau dysgu gwahanol yn well, trwy ddarparu ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol.

2.24 Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr yr arolwg dysgwyr (45 y cant; 157) yn ansicr a oedd unrhyw beth ar goll o'r hawl hon sy'n bwysig i ddysgwyr 14 i 16 oed. Roedd 37% arall (127) o'r ymatebwyr yn credu nad oedd dim byd ar goll.

**Ffigur 2.11 Cwestiwn 4 yr Arolwg Dysgwyr: A oes unrhyw beth ar goll o'r hawl hon sy'n bwysig i ddysgwyr 14 i 16 oed?**




2.25 Roedd ymatebwyr yr arolwg i ddysgwyr a oedd yn credu bod rhywbeth ar goll o'r hawl hon sy'n bwysig i bobl ifanc 14 i 16 oed, yn mynegi amrywiaeth o farnau yn ymwneud â datblygu sgiliau bywyd penodol, cyflogadwyedd, a'u hawydd am ystod eang o bynciau i'w hastudio, gan gynnwys darparu gweithgareddau creadigol.

2.26 O'r ohebiaeth blwch post ychwanegol, cymysg oedd yr ymatebion, gydag ychydig o ymatebwyr yn awgrymu'r angen am wybodaeth ychwanegol fel enghreifftiau ymarferol, rhestru opsiynau modelu gan gynnwys sut y bodlonir gofynion gorfodol, ac i'r adrannau fod yn fwy cytbwys.

### Effaith ar weithlu ysgolion

2.27 Roedd llawer o ymarferwyr a ymatebodd yn ansoddol i Gwestiwn 5 yr ymgynghoriad yn mynegi pryderon mawr yn ymwneud â chanfyddiad o lwyth gwaith cynyddol oherwydd y newidiadau arfaethedig a disgwyliadau newydd y cwricwlwm. Awgrymodd tri ymatebydd ar ran sefydliadau y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar lwyth gwaith i ddechrau, oherwydd mwy o gynllunio, y dull asesu, cydweithio, lefelau staffio isel ac adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i reoli llwyth gwaith yn effeithiol, yn ogystal â'r her o ddehongli'r canllawiau. Ategwyd hyn gan gyfranogwyr y grŵp ffocws ymarferwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad.


2.28 Er bod rhai ymarferwyr addysg yn crybwyll yn y grwpiau ffocws eu bod yn disgwyl cynnydd mewn llwyth gwaith wrth i ysgolion baratoi a gweithredu'r newidiadau, roeddent hefyd yn cydnabod nodau cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru, ac mai rhan o fwriad y Cwricwlwm yw lleihau gwaith papur a llwyth gwaith. Awgrymodd rhai o'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg y gallai amwysedd ynghylch gofynion 14 i 16 y cwricwlwm effeithio ar forâl staff a boddhad swydd.

### Effaith ar grwpiau penodol o ddysgwyr

2.29 Roedd llawer o ymarferwyr addysg a ymatebodd yn ansoddol i Gwestiwn 6 y prif ymgynghoriad yn credu y bydd y polisi yn effeithio'n negyddol ar y myfyrwyr mwy difreintiedig. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebion yn nodi y byddai'r polisi yn caniatáu i ysgolion gynnig cwricwlwm mwy amrywiol y teimlent y byddai'n gallu diwallu anghenion pob dysgwr yn well. (Fframiwyd cwestiwn 6 fel cwestiwn agored yn y prif ymgynghoriad, a dyna pam nad oes Ffigur yn darlunio ymatebion meintiol).

2.30 O'r rhieni a'r gofalwyr a atebodd gwestiwn 6, roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a gytunodd yn gryf ac a gytunodd (40 y cant; 15), a'r rhai a oedd yn anghytuno ac yn anghytuno'n gryf (40 y cant; 15) bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, ag ADY, a nodweddion gwarchodedig eraill.


**Ffigur 2.12 Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad i Rieni a Gofalwyr: A ydych yn cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig eraill**?




2.31 Cytunai rhai ymatebwyr fod gan y polisi y potensial i gefnogi'r cyfleoedd hyn ond roeddent yn pwysleisio bod gweithredu effeithiol a hyfforddiant i athrawon yn hanfodol. Roedd ymatebwyr eraill yn mynegi amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd ymarferol y polisi i gefnogi dysgwyr dan anfantais economaidd a'r rhai ag ADY ac roedd ganddynt bryderon bod y cwricwlwm yn parhau i ganolbwyntio gormod ar ystyriaethau academaidd. Awgrymai'r ymatebwyr y gallai'r newidiadau hyn gael effaith negyddol, gan arwain at rai rhieni a gofalwyr i wneud sylwadau bod yn well ganddynt y system sydd ar waith yn Lloegr.

2.32 Roedd dysgwyr yn teimlo y bydd y polisi yn cael effaith benodol ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig (40 y cant; 109), ac yna dysgwyr ag ADY (39 y cant; 103) ac yn olaf dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11 (37 y cant; 100). O'r ymatebwyr a ddewisodd "arall," soniodd dysgwyr eu bod yn teimlo y byddai effaith ar bob grŵp, neu ddim effaith benodol ar unrhyw un o'r grwpiau.

**Ffigur 2.13 Cwestiwn 6 yr Arolwg Dysgwyr: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith benodol ar grwpiau penodol o ddysgwyr, fel: Dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 10 ac 11, Dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, Arall?**





2.33 Roedd ymatebwyr i'r ohebiaeth blwch post ychwanegol yn tynnu sylw at y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a allai fod dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at weithgareddau allgyrsiol, tripiau a phrofiadau dysgu eraill y tu allan i'r ysgol.

2.34 Cyfeiriodd rhieni, ymarferwyr ac ymatebwyr eraill a dderbyniwyd drwy e-bost, hefyd at y diffyg adnoddau i wneud newidiadau, ac i gefnogi dysgwyr ADY, a gallai pob un ohonynt waethygu anghydraddoldebau presennol i ysgolion llai neu ysgolion gwledig.

### Effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg

2.35 Roedd mwyafrif y rhieni a gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg (43%; 16) yn cytuno neu'n anghytuno (38%; 14) â Chwestiwn 7 bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg. O'r rhai a gytunodd ac a anghytunodd, roedd galwadau cyson am gydbwysedd o ran pwyslais ar y Gymraeg ochr yn ochr â meysydd astudio eraill.

**Ffigur 2.14 Cwestiwn 7 yr Arolwg i Rieni a Gofalwyr: Ydych chi'n cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg?**




2.36 Cytunai'r rhan fwyaf o ymarferwyr a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad hefyd â Chwestiwn 7, y bydd y canllawiau yn cael effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, cyn belled â bod y mesurau cywir yn cael eu rhoi ar waith i hwyluso'r newidiadau.

2.37 Roedd llawer o ymatebion cyffredinol i'r prif ymgynghoriad, gan rieni a gofalwr ac o'r ohebiaeth blwch post ychwanegol yn nodi nad oedd digon o athrawon ledled Cymru gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i gyflwyno cwricwlwm dwyieithog yn effeithiol. Yn yr ymgynghoriad, roedd galw ar i'r cwricwlwm ganolbwyntio mwy ar ddatblygu siaradwyr Cymraeg rhugl yn hytrach na bodloni gofynion sylfaenol yn unig. Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu bod angen dull mwy cytbwys a thrylwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i hyrwyddo rhuglder yn y Gymraeg.

2.38 Roedd ymatebwyr ychwanegol yr ohebiaeth blwch post yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac y byddai'r cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn cael effaith gadarnhaol wrth normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg fel sgil bywyd a gwaith.

2.39 Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn nodi effeithiau negyddol posibl y cynigion, yn enwedig mewn perthynas â'r pwyslais ar gymwysterau ac nad yw geiriad y canllawiau yn rhoi digon o eglurder. Roedd rhai rhieni a gofalwyr hefyd yn cyfleu y gallai'r pwyslais presennol ar y Gymraeg yn hytrach na blaenoriaethu pynciau eraill fod â'r potensial i gael effaith negyddol.

### Effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg

2.40 Prin oedd yr adborth i gwestiwn 8 yr ymgynghoriad a oedd yn gofyn a ellid llunio neu newid y canllawiau dysgu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn credu na fyddai unrhyw newid gwirioneddol yn y defnydd o'r Gymraeg nac mewn addysgu'r Gymraeg.

2.41 Roedd gohebiaeth blwch post ychwanegol yn nodi y dylid cysylltu’r canllawiau â’r Bil Addysg Gymraeg a chynnwys iaith fwy cyson i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac atal dehongli anghywir.

**Sylwadau ychwanegol**

2.42 Roedd rhai ymatebwyr i’r arolwg dysgwyr a rhieni a gofalwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws i gwestiwn 9 yn codi amheuaeth ynghylch yr angen am newid a diben cyffredinol y canllawiau a theimlwyd bod angen eglurder ynghylch y sail resymegol dros unrhyw gynigion.

2.43 Mynegodd llawer o ymarferwyr a ymatebodd i’r cwestiwn hwn bryderon yn ymwneud â heriau logistaidd ac ymarferol, yn enwedig staff annigonol, a chyfyngiadau amserlen, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

2.44 Mynegodd rhai ymatebwyr o wahanol grwpiau rhanddeiliaid bryderon ynghylch eglurder a chysondeb y canllawiau arfaethedig, gan ychwanegu bod defnydd aml o derminoleg amwys yn y rhwymedigaethau statudol. Mae diffyg arweiniad ar sut y bydd y gyfres sgiliau newydd yn ymwneud â mesurau perfformiad, ac a fydd y rhain yn orfodol ai peidio.

2.45 Roedd rhai pryderon gan ymarferwyr grwpiau ffocws ynglŷn â sut y bydd arholiadau a monitro'n cael eu sefydlu os yw ysgolion yn "dysgu pethau gwahanol". Teimlwyd bod angen egluro a rheoleiddio'n well y profiad "sylfaenol" yn well y dylai pob dysgwr blwyddyn 10 ac 11 ei gael yn yr ysgol.

2.46 Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi ehangder y cwricwlwm, ond yn nodi problemau posibl o ran stigma a chynhwysiant wrth ystyried pob grŵp o ddysgwyr ag anghenion gwahanol ac yn meddwl sut y byddai hyn yn cael ei weithredu fel bod pob dysgu 14 i 16 yn cael ei ystyried yn bwysig.

2.47 Roedd rhai ymarferwyr yn pryderu am sut y bydd Estyn yn dehongli'r canllawiau, ac y byddai eglurder i ysgolion ynghylch manylion yr hyn fydd yn cael ei fonitro gan Estyn, yn bwysig.

# 3. Atodiadau

## Atodiad A – Methodoleg

3.1 Roedd y dadansoddiad o'r cyd-drafod a'r ymgynghori yn dilyn dull dilyniannol cymysg i geisio cael darlun mor gynhwysfawr â phosibl ar y canllawiau dysgu 14 i 16 drafft.

*Trosolwg o'r cyd-drafod ansoddol*

3.2 Cysylltodd Miller Research â sampl o 30 o ymarferwyr addysg, rhieni a gofalwyr, a dysgwyr mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau i gasglu adborth manylach ar gyfer yr ymgynghoriad. Grwpiau ffocws oedd y prif ddull o drafod a chynhaliwyd cyfweliadau gydag unigolion na allent fynychu'r grwpiau ffocws a gynigiwyd. Roedd y trafod ansoddol yn cynnwys dau grŵp ffocws a dau gyfweliad gydag ymarferwyr addysg yng Nghymru, a thri grŵp ffocws o rieni a gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru. Bu dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiwn Grŵp Dysgwyr a oedd eisoes yn bod gan Gymwysterau Cymru, a thrwy arolwg symlach, byr a luniwyd yn benodol i ennyn adborth dysgwyr.

3.3 Defnyddiwyd cymysgedd o strategaethau recriwtio. Ar gyfer ymarferwyr addysg, anfonwyd gwahoddiadau'n uniongyrchol at sampl o ysgolion a chonsortia addysg rhanbarthol gan ddefnyddio gwybodaeth gyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd a'u hysbysebu trwy Dysg, cylchlythyr addysg Llywodraeth Cymru. Ar gyfer rhieni a gofalwyr, dosbarthwyd gwahoddiadau trwy gylchlythyrau e-bost a chyfryngau cymdeithasol Cyswllt Rhieni Plant yng Nghymru, Governors Cymru, ParentKind, a sampl o swyddfeydd cymorth llywodraethwyr. Roedd grŵp dysgwyr Cymwysterau Cymru yn grŵp a oedd yn bodoli eisoes y gwahoddwyd Miller Research i ymuno ag ef, a dosbarthwyd y pecyn arolwg dysgwyr gan Blant yng Nghymru a'i rannu gyda'r ymarferwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws.

3.4 Cynhaliwyd cyfanswm o ddau grŵp ffocws a dau gyfweliad gydag ymarferwyr, dau grŵp ffocws gyda rhieni a gofalwyr, a chynhaliwyd un grŵp ffocws gyda dysgwyr. Derbyniodd yr arolwg hunan-gwblhau ar gyfer dysgwyr 340 o ymatebion cyflawn, a derbyniwyd pob un yn Saesneg.

*Dull o ddadansoddi ymatebion a data ansoddol yr ymgynghoriad*

3.5 Cafodd ymatebion a nodiadau ymgynghori gan grwpiau ffocws a chyfweliadau eu codio a'u dadansoddi â llaw gan o leiaf ddau ymchwilydd gwestiwn wrth gwestiwn gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Tynnwyd sylw at themâu a phatrymau cyffredin, gydag ymchwilwyr yn cydweithio i gynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o ymatebion. Dadansoddwyd yr holl ymatebion yn y cyfrwng iaith cyflwyno, sy'n golygu bod ymatebion Cymraeg yn cael eu dadansoddi drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn caniatáu dealltwriaeth lawn a thrylwyr o ystyr yr ymatebion. Pan oedd ymatebwyr yn

croesgyfeirio elfennau cynharach o'u hymatebion neu'n ailadrodd cynnwys air air am air o gwestiwn i gwestiwn, blaenoriaethwyd yr achos cyntaf o'r ymateb hwn wrth ddadansoddi.

3.6 Dadansoddwyd cwestiynau categorïaidd gan ddefnyddio Microsoft Excel Pivot Tables. Mae pob canran yn seiliedig ar gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn penodol hwnnw i gyfrif am lefelau amrywiol o ddiffyg ymateb.

*Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad swyddogol*

3.7 Cafwyd cyfanswm o 103 o ymatebion. Tynnwyd sylw at ymatebion 1-31 fel rhai a gafodd eu cyflwyno cyn bod sôn penodol i ymatebwyr ddarllen y dogfennau cyfarwyddyd cyn cwblhau'r ymgynghoriad. Er bod yr ymatebion hyn wedi'u dadansoddi i ddechrau ar wahân i weddill yr ymatebion a dderbyniwyd, ni chanfuwyd unrhyw themâu arwyddocaol rhwng y ddau grŵp o ymatebwyr.

## Atodiad B – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| | **Cwestiynau i'r holl randdeiliaid** |
|---|---|
| 1 | Ydych chi'n ymateb fel rhiant neu ofalwr? |
| 2 | Ydych chi'n gweithio mewn addysg neu'n cefnogi dapariaeth addysg? |
| 3 i) | Os ydych chi, beth yw eich sefydliad? (Os na parhewch i (iii) isod) |
| 3 ii) | Beth yw eich prif rôl? |
| 3 iii) | Os nad ydych chi'n gweithio mewn addysg na'n cefnogi'r ddarpariaeth, ym mha swyddogaeth yr hoffech roi adborth? |
| 3 iv) | Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grwp? |
| 3 v) | Os ydych chi, nodwch os gwelwch yn dda |
| | **Cwestiynau i ymarferwyr addysg** |
| 1 | I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall eich rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed o fewn Cwricwlwm i Gymru? |
| 2 | I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylid defnyddio'r cynnig o gymwysterau i gefnogi cwricwlwm 14 i 16 i ddysgwyr o fewn Cwricwlwm i Gymru? |
| 3 | I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut y dylai cynnig cwricwlwm 14 i 16 gael ei gynllunio? |
| 4 | I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn cynnwys digon o fanylder? |

| | |
|---|---|
| 5 | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar weithlu'r ysgolion, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai ei chael ar lwyth gwaith. |
| 6 | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). |
| | **Cwestiynau i rieni a gofalwyr** |
| 1 | Ydych chi’n deall beth ddylai ysgol fod yn ei gynnig i’ch plentyn ym mlynyddoedd 10 ac 11? |
| 2 | A ydych yn cytuno â Hawl i Ddysgu 14 i 16 Llywodraeth Cymru?<br>Ydw Nac ydw Sylwadau |
| 3 | A yw’r hawl yn cynnwys popeth sy’n bwysig i’ch plentyn yn 14 i 16 oed? |
| 4 | A oes yna bethau sy’n bwysig i ddysgu eich plentyn yn 14 i 16 oed nad ydynt wedi’u cynnwys yn yr hawl, ac os felly beth? |
| 5 | A ydych yn cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg? |
| 6 | A ydych yn cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig (anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol)? |
| | **Cwestiynau i’r holl randdeiliaid** |
| 7 | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Canllawiau Dysgu 14 i 16 ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? |
| 8 | Yn eich barn chi, a allai'r Canllawiau Dysgu 14 i 16 gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn sicrhau: eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg? |
| 9 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma |
| | **Cwestiynau demograffig ychwanegol – yr holl randdeiliaid** |

| | |
|---|---|
| 1 | Ydych chi'n byw yng Nghymru? |
| 2 | Oes gennych chi fuddiant busnes yng Nghymru? |
| 3 | Sefydliad (os yn berthnasol) |
| 4 | Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgyngoriadau. I gadw'ch ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost) ticiwch y blwch. |

**Atodiad C – Arolwg Dysgwyr**

| | **Eich Barn ar Ddysgu 14 i 16** |
|---|---|
| 1 | Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi? 6 / 7 / 8 / 9 / 10 / 11 / 12 / 13 / Arall |
| 2 | A yw'r esboniad uchod yn helpu chi i ddeall yr hyn y dylai ysgolion cynnig i ddisgyblion 14 i 16 oed wrth symud ymlaen? Ydy / Nac ydy / Ansicr |
| 3 | Ydych chi'n deall beth fyddai'n dod o dan bob un o bedair cydran hawl y dysgwr? Ydy / Nac ydy / Ansicr |
| 4 | A oes unrhyw beth ar goll o'r hawl hwn sy'n bwysig i ddysgwyr 14 i 16 oed? Oes / Nac oes / Ansicr |
| 5 | Os taw 'oes' oedd eich ateb i Gwestiwn 4, beth sydd ar goll? |
| 6 | A oes unrhyw beth dal yn ddryslyd o ran yr hyn mae angen i ysgolion ei ddarparu i ddisgyblion 14 i 16 oed? Os oes, ysgrifennwch eich cwestiynau yma. |
| 7 | Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith benodol ar grwpiau penodol o ddysgwyr, fel: Dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 10 ac 1, Dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, Arall |
| 8 | Os ydych, sut bydd hyn yn effeithio ar y grŵp hwnnw o ddysgwyr? |

**Atodiad D - Rhestr o sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad**

3.8 Cyd-drafod cyn ymgynghori:

- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru
- CBAC
- CBI

- Consortia Rhanbarthol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Estyn
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Gyrfa Cymru
- Rhanddeiliaid Addysg Bellach
- Rhanddeiliaid Addysg Uwch
- Siambr Fasnach
- Undebau addysg
- Ymarferwyr ysgolion arbennig
- Ymarferwyr ysgolion uwchradd

3.9 Ymatebion gan sefydliadau:

- BHF Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Co-ops & Mutuals Wales
- Colegau Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru
- Estyn
- Gyrfa Cymru
- NASUWT Cymru
- NEU Cymru
- UCAC
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Y Sefydliad Ffiseg
- Ymateb CLILC a CCAC ar y cyd
- Ymateb GwE

3.10 Ymatebion i'r ymgynghoriad (nad oeddent yn nodi eu bod yn dymuno aros yn ddienw):

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL Cymru)
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- CBAC
- Consortiwm Canolbarth y De (CSC)
- Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr
- Gwasanaethau Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Uwchradd Fitzalan
- Ysgol Uwchradd Penarlâg
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

- Coleg Sir Benfro
- Ysgol Gyfun Pencoed
- Cyngor Sir Powys
- Ysgol Uwchradd Prestatyn
- Cymdeithas Frenhinol Bioleg
- Cymdeithas Frenhinol Cemeg
- Llwyddo gydag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant
- UWTSD
- Ysgol Bro Gwaun
- Ysgol Uwchradd